Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LLYWODRAETH CYMRU

# Cynllun Gwella'r Gyllideb

llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45898, ISBN digidol 978-1-80535-147-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **1**

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwelliannau arfaethedig yn ystod 2022** **4**

Penderfyniadau Gwario 4

Dadansoddiadau Cyllidol ac Economaidd ac Asesu’r Effaith 4

Cynllunio Seilwaith 5

Trethi Cymru 5

Ymgysylltu 6


# Cyflwyniad

Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb yn amlinellu ein gweledigaeth, gan gynnwys dyheadau tymor byr a thymor canolig dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn gwella proses y Gyllideb drwy ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a’r pum ffordd o weithio er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi’r Cynllun bob blwyddyn, er mwyn cydnabod natur barhaus sbarduno a chynnal newid tymor hirach. Ein nod cyffredinol yw y bydd y gwelliannau arfaethedig hyn i broses y Gyllideb yn arwain at fwy o dryloywder yn nogfennau’r Gyllideb flynyddol i ddangos sut mae’r Ddeddf wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y Gyllideb.

Mae’r Cynllun hwn sydd wedi’i ddiweddaru yn parhau i ddangos sut rydym wedi adeiladu, neu’n bwriadu adeiladu, ar y gwaith hwn yn y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys y camau rydym wedi’u cymryd yn ystod cylch y Gyllideb bresennol.

Mae’r Cynllun eleni’n cael ei gyhoeddi yng nghyd-destun ymateb i effeithiau chwyddiant, y pwysau cysylltiedig ar gostau byw sy’n effeithio ar bobl ledled Cymru, ymateb i’r argyfwng yn Wcráin yn ogystal â byw gydag effeithiau pandemig Covid. Ochr yn ochr â’r rhain, mae angen parhaus i ymateb i heriau tymor hirach fel yr argyfwng hinsawdd a natur yn ogystal â sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn dangos yn glir pa mor bwysig yw parhau i wneud cynnydd ar ein diwygiadau tymor hirach, er mwyn sicrhau bod y prosesau sy’n sail i’n prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch treth a’r Gyllideb yn cynyddu effeithiau ein hysgogiadau cyllidol.

I’n helpu gyda’r gwaith hwn, rydym wedi sefydlu Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb. Nod y Grŵp hwn yw ymgysylltu a dylanwadu ar welliannau i'n prosesau treth a’r Gyllideb, gan gefnogi’r gwaith o gyflawni Cynllun Gwella’r Gyllideb yn ei dro. Mae cynnydd a dylanwad y Grŵp wedi’u hamlinellu yn y Cynllun hwn. Mae manylion y Cylch Gorchwyl, a chofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd eleni, ar gael ar dudalen we'r Grŵp.

Rydym hefyd wedi parhau i gydweithio â Llywodraethau eraill ym mhob cwr o’r byd, gan rannu profiadau i sbarduno gwelliannau i brosesau’r Gyllideb yn ogystal â pharhau â’n gwaith ar yr agenda llesiant, sy’n hanfodol yn y cyfnod heriol iawn sy’n ein hwynebu.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi gwneud cynnydd ar nifer o elfennau yn ein Cynllun. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith gyda Bwrdd Prosiect Cymru Ifanc, Plant yng Nghymru, a fydd yn gweithio gyda ni drwy gydol 2023 i gydgynhyrchu fersiwn Pobl Ifanc o Gynllun Gwella’r Gyllideb. Bydd hyn yn golygu cydweithio â swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru; bydd y fersiwn Pobl Ifanc o Gynllun Gwella’r Gyllideb yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â’r Gyllideb Ddrafft sydd, ar hyn o bryd, i fod i gael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023.

Rydym wedi gwella ein prosesau treth yn sylweddol, ac mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran am yr wybodaeth ddiweddaraf.

Rydym wedi parhau â'n gwaith i ymwreiddio Cyllidebu ar sail rhyw ar draws Llywodraeth Cymru. Rydym wedi gweithio gydag amrywiaeth o gydweithwyr, yn fewnol ac yn allanol, i hybu gwell dealltwriaeth o Gyllidebu ar sail rhyw. Rydym yn parhau i ddysgu o'n tri chynllun peilot presennol ar gyllidebu ar sail rhyw, ac yn cydweithio ar draws yr ardaloedd i rannu'r gwersi a ddysgir a deall sut gellir ymwreiddio ac ehangu'r gwaith hwn ymhellach. Bydd hyn yn help i gyflawni ein nod i symud oddi wrth weithgarwch sy'n benodol i'r cynlluniau peilot er mwyn i'r arfer ddod yn rhan gwbl annatod o'r sefydliad drwyddo draw.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi am Gynllun Gwella'r Gyllideb, cysylltwch â BudgetImprovementTeam@gov.wales

Mae tudalennau 4, 5 a 6 y Cynllun hwn yn cynnwys crynodeb manylach o'r cynnydd a wnaed gennym ar draws ein prosesau treth a'r Gyllideb.

Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi'i lunio ar sail pum elfen allweddol o'r broses:

1. Penderfyniadau Gwario
2. Dadansoddiadau Cyllidol ac Economaidd
3. Cynllunio Seilwaith
4. Trethi Cymru
5. Ymgysylltu

**1. Penderfyniadau Gwario** – Rydym yn adolygu sut gallwn wella ein prosesau a ddefnyddir ar draws Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i nodi a datblygu gwell cynigion gwario, i wella gallu a'n helpu i flaenoriaethu penderfyniadau sy'n cyd-fynd yn gliriach â'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio, ac i ystyried cyfleoedd i gynllunio'n well ar gyfer y tymor hirach.

**2. Dadansoddiadau Cyllidol ac Economaidd ac asesu Effaith** – Rydym yn parhau i werthuso sut gallwn wella'r Dadansoddiadau Cyllidol ac Economaidd presennol ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn asesu a gweld yn well beth yw effaith ein penderfyniadau ynghylch y Gyllideb.


**3. Cynllunio Seilwaith** – Defnyddio'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i ystyried sut gallwn ni wella ein prosesau er mwyn cysoni blaenoriaethau strategol a phenderfyniadau ar fuddsoddiad cyfalaf, gan nodi natur hirdymor gwariant cyfalaf a'r angen am fwy o integreiddio.

**4. Trethi Cymru** – Sut gallwn ni fynd ati i gyflawni o dan ein Fframwaith Polisi Trethi, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'n pum egwyddor ar gyfer polisi trethi. Rydym yn canolbwyntio ar godi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl; ystyried sut gellir defnyddio'r ysgogiadau treth presennol sydd ar gael i ni i gyflawni ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru; a datblygu ein buddiannau treth yn y dyfodol er mwyn cyflawni amcanion cyllidol a pholisi ehangach. Yn unol â'r egwyddorion polisi trethi a nodir yn y Fframwaith, byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn datblygu polisi trethi sy'n gwneud ein trethi'n syml, yn glir, yn flaengar ac yn sefydlog, gydag eglurder ac effeithlonrwydd deddfwriaethol a gweinyddol.

**5. Ymgysylltu** – Rydym yn parhau i ddatblygu ffordd strategol o ymgysylltu ynghylch y Gyllideb, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o drethiant a gwariant cyhoeddus; ymgysylltu'n ystyrlon â rhanddeiliaid allweddol ac unigolion y mae penderfyniadau ynghylch y Gyllideb yn effeithio arnynt er mwyn trafod ac ystyried eu safbwyntiau; a chydweithio â rhanddeiliaid i ddylanwadu ar welliannau i gynigion gwariant a threthiant.

Mae'r diagram cysyniadol ar y dudalen nesaf yn dangos y berthynas rhwng agweddau gwahanol ar y Gyllideb Flynyddol sydd yn y Cynllun hwn ac sy'n cael eu crynhoi uchod.

## Sut mae'r cyfan yn gweithio gyda'i gilydd?



# Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwelliannau arfaethedig yn ystod 2022

Ceir crynodeb isod o gynnydd y gwelliannau arfaethedig yn ystod y cyfnod hwn. Er gwaethaf y cyd-destun heriol yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gallu gwneud cynnydd da eto mewn nifer o feysydd. Yn unol â natur newid systemig a hirdymor, mewn rhai meysydd bu'n rhaid i ni addasu ein cynlluniau i adlewyrchu'r amgylchiadau sy'n newid ac i ddangos ein bod wedi dysgu gwersi; bydd angen addasu ein dull o weithredu er mwyn cyflawni ein dyheadau. Yn ystod blwyddyn gyntaf y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb rydym wedi treulio amser yn sefydlu'r Grŵp a, gyda'i gilydd, mae'r Grŵp wedi edrych ar sut mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ei Hasesiad Effaith Integredig Strategol. Sefydlwyd is-grŵp, ac mae cynllun gwaith ar y cyd yn cael ei ddatblygu, gyda rhai newidiadau'n cael eu rhoi ar waith erbyn cyhoeddi'r Asesiad Effaith Integredig Strategol ym mis Rhagfyr 2022. Bydd y gwaith ar yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn parhau yn 2023, a byddwn hefyd yn gweithio ar sut gallwn ofalu bod atal yn rhan annatod o'n prosesau. Bydd rhagor o fanylion am Gynllun Gwaith y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ar gyfer 2023 yn cael eu cyhoeddi ar dudalen we'r Grŵp yn y flwyddyn newydd. Mae ein dyheadau'n dal i gael eu hadlewyrchu yn ein Cynllun ar gyfer y dyfodol, er bod yr amserlenni wedi'u haddasu.

## Penderfyniadau Gwario

- Yn dilyn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU y llynedd, lle dyrannwyd cyllidebau dros gyfnod o dair blynedd hyd at fis Mawrth 2025, rydym wedi cynnal Adolygiad o Wariant hyd at 2024-25 a oedd yn cynnwys adolygiad sylfaen sero o wariant cyfalaf. Wrth gynnal yr Adolygiad hwn o Wariant, roeddem wedi pwyso a mesur rhai o'r prosesau a oedd yn sail i'r dull hwn o weithredu, ac wedi datblygu proses y Gyllideb eleni i ddysgu o'r dull hwn ac adeiladu ar y gwaith sylweddol a oedd yn sail i'r Adolygiad o Wariant. Rydym wedi parhau i ystyried sut gallwn ni fynd ati'n well i gyllidebu mewn ffordd integredig er mwyn i ni allu deall yn well beth yw effaith ein penderfyniadau gwario. Rydym wedi gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i ystyried sut gallwn ni ddiwygio'r prosesau hyn yn y tymor hirach yn ogystal â gwella ein Hasesiad Effaith Integredig Strategol eleni. Yn y cyd-destun rydym ni wedi'i wynebu, rydym hefyd wedi ceisio gweld sut gallwn ni ddeall yn well effeithiau croestoriadol ac anfwriadol ein penderfyniadau gwario, er mwyn i ni allu sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael cymaint o effaith â phosibl.
- Rydym wedi sefydlu'n ffurfiol y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb. Ochr yn ochr â gweithio gyda'r Grŵp i helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r gwaith rydym yn ei wneud ac i ddatblygu agenda ar y cyd, mae wedi bod yn dylanwadu ar welliannau i'n prosesau treth a'r Gyllideb. Yn bennaf, mae'r Grŵp wedi bod yn gweithio gyda ni i ystyried sut gallwn ni adolygu dull gweithredu ein Hasesiad Effaith Integredig Strategol, sydd wedi cynnwys diwygiadau i'r ffordd mae'r ddogfen yn cael ei chyflwyno yn y Gyllideb hon.
- Rydym wedi parhau i gydweithio â Llywodraethau eraill i rannu profiadau o wella'r Gyllideb, yn fwyaf diweddar gyda Llywodraethau'r Alban, Canada, Gwlad yr Iâ a Seland Newydd. Mae hyn yn helpu i siapio'r gwersi a ddysgir yn ein meysydd fel Adolygiadau o Wariant, cyllidebu ar sail rhyw ac ymgysylltu mewn perthynas â'r Gyllideb.
- O ystyried y cyd-destun rydym wedi'i wynebu, mae ein Cyllideb ar gyfer 2023-24 wedi ceisio cydbwyso'r heriau tymor byr a thymor hirach rydym yn eu hwynebu, ochr yn ochr â thargedu buddsoddiad yn y lleoedd gorau i atal rhagor o niwed yn erbyn y rhai mwyaf difreintiedig. Roeddem hefyd wedi bwriadu cydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i lunio diwygiadau mwy sylfaenol, ond wrth ystyried y pwyslais eleni ar sefydlu'r Grŵp a chydnabod yr angen i dreulio mwy o amser yn ystyried y gwaith ar asesiadau effaith, roeddem yn cydnabod yr angen i ohirio gwaith sylweddol ynghylch sut i ymwreiddio atal ymhellach yn ein prosesau. Byddwn yn parhau i edrych ar y ffordd orau o gefnogi dull gweithredu cyllideb gyfan tuag at weithgareddau ataliol, a byddwn yn cydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i gyflawni hyn.
- Rydym hefyd wedi parhau â'r gwaith atal drwy newid pwyslais y gronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn canolbwyntio ar fwrw ymlaen ag ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. Cytunwyd ar y gyfran gyntaf o gyllid, sy'n ceisio cynorthwyo gofalwyr maeth. Gwneir gwaith pellach yn y dyfodol i roi cymorth pellach ar gyfer mabwysiadu a maethu.

## Dadansoddiadau Cyllidol ac Economaidd ac Asesu'r Effaith

- Drwy ddefnyddio'r data a'r dystiolaeth sydd ar gael, mae economegwyr Llywodraeth Cymru wedi parhau i chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gynhyrchu dadansoddiad economaidd a phapurau briffio ar yr heriau economaidd sy'n esblygu sy'n ymwneud â'r argyfwng costau byw, y pandemig a symud i gysylltiadau masnachu newydd â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyniadau i'r Cabinet ac uwch swyddogion, paratoi dadansoddiadau ac asesiadau pwrpasol a nodir mewn Adroddiad Economaidd Misol mewnol. Rydym yn parhau i wella ein dealltwriaeth o'n buddsoddiadau ar Sero Net, drwy ganolbwyntio ar gyflawni'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae ein Cynllun Cyflawni Sero Net yn cynnwys dadansoddiad pellach o effaith polisïau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru a'n partneriaid ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu adroddiad y Prif Economegydd i ategu Adroddiad Llesiant Cymru, ac i ddatblygu canllawiau Gwerth am Arian, gan gynnwys rhoi cyngor ar ddefnyddio egwyddorion y Llyfr Gwyrdd yng nghyd-destun Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Rydym yn dal wedi ymrwymo i adolygu sut rydym yn asesu effeithiau. Ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2023-24, rydym wedi cydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, ac rydym yn datblygu Cynllun ar y cyd i wella'r Asesiad Effaith Integredig Strategol. Ar gais y Grŵp, rydym wedi gwneud cysylltiadau clir o ran sut cafodd effeithiau eu hystyried yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch y gyllideb. Mae gennym dystiolaeth gyson o effeithiau cyffredinol ar gymdeithas ochr yn ochr â llai o astudiaethau achos, ond rhai manylach, ar effeithiau penderfyniadau gwario penodol.

- Rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwaith i ymwreiddio dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar rywedd mewn nifer o feysydd, ac rydym yn sicrhau bod Trysorlys Cymru yn bwrw ymlaen â'r gwaith pwysig hwn. I sicrhau ein bod yn dysgu gwersi gan eraill, rydym wedi defnyddio ein cysylltiadau drwy Rwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant (WeGo) i ffurfioli a pharhau â'n gwaith â gwledydd fel Gwlad yr Iâ a Chanada sy'n arwain y byd, ac ehangu ein rhwydweithiau ag eraill sy'n gweithredu yn y maes hwn. Rydym yn gweithio'n agos gydag aelodau'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i ystyried sut gall cyfrwng fel cyllidebu ar sail rhyw ein helpu i gryfhau ein prosesau treth a'r Gyllideb, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut rydym yn asesu effeithiau ein penderfyniadau gwario.
- Mae newidiadau i'r broses hon yn cael eu hystyried yn y tymor byr a'r tymor hirach wrth i gynllun gweithredu cliriach gael ei ddatblygu ar y cyd â'r grŵp, ac mae rhagor o fanylion ar gael yn y Cynllun hwn.
- Er nad yw'r gwerthusiad o'r Cyfrifon Dysgu Personol wedi cael ei gyhoeddi'n allanol eto, mae'r canfyddiadau wedi rhoi gwybodaeth werthfawr er mwyn deall rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig ag ymwreiddio dull cyllidebu ar sail rhyw mewn maes cyflawni penodol. Disgwylir y bydd y gwerthusiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod Gwanwyn 2023.
- Rydym wedi gweithio'n agos gyda thîm y gwerthusiad i sicrhau ein bod yn dysgu o'r canfyddiadau cynnar hyn, er mwyn eu defnyddio i lywio newidiadau yn nyluniad y rhaglen ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd a sicrhau bod y rhain yn cael eu rhannu ar draws yr ardaloedd peilot. Rydym wedi cydweithio â darparwyr gwasanaethau, gan ddarparu hyfforddiant i ddatblygu eu gwybodaeth a'u gallu i ddeall egwyddorion cyllidebu ar sail rhyw. Mae cynllun peilot Cyfrifon Dysgu Personol wedi dangos pwysigrwydd hyfforddiant a chefnogaeth i sicrhau dealltwriaeth gyson ar draws tîm prosiect a'i gadwyn gyflenwi, yn enwedig yn ystod cyfnodau o newid. Mae pwysigrwydd casglu data'n gywir ac yn gyson hefyd wedi bod yn elfen allweddol a nodwyd, ac mae gwaith penodol yn mynd rhagddo ar draws y rhaglen i fynd i'r afael â hyn.
- Mae'r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol yn mynd ati ar hyn o bryd i ystyried pa wersi y gellir eu dysgu o'r cynllun peilot prif ffrydio cydraddoldeb a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Cynllun Sgiliau Sero Net. Maen nhw'n ystyried sut gallai defnyddio dull cyllidebu ar sail rhyw yng nghyd-destun Cyfrifon Dysgu Personol helpu i roi rhan o'r Cynllun tymor hirach yma ar waith.
- Yng nghynllun peilot Gwarant i Bobl Ifanc, rydym wedi cytuno'n ddiweddar ar nifer o brosiectau peilot mwy newydd sy'n canolbwyntio'n benodol ar genhedlaeth Z a fydd yn mabwysiadu dull gweithredu ar sail rhyw o'r cam dylunio. Mae pecynnau eraill Gwarant i Bobl Ifanc sydd wedi'u sefydlu ers blynyddoedd lawer wedi cynnal adolygiad i asesu'r ffocws croestoriadol a rhywedd yn yr asesiadau hynny.
- Mae'r gwersi hyn a ddysgwyd wedi bod yn rhan allweddol o'r broses o ddod o hyd i fylchau yn y ffocws croestoriadol a rhywedd, ac mae prosiectau'n awr yn dechrau ailedrych ar yr asesiadau hyn gan ddefnyddio dull croestoriadol. Yna gellir ystyried dyluniad y prosiect a'r broses o ddyrannu adnoddau.
- Mae'r prosiect E-Symud sy'n cael ei ddarparu gan Sustrans Cymru yn gweithredu cynllun benthyg e-feiciau cymunedol, rhad ac am ddim mewn pum ardal yng Nghymru – y rhan fwyaf ohonynt â lefelau uchel o amddifadedd. Mae'n hyrwyddo ac yn casglu tystiolaeth ar ddefnyddio e-feiciau gan y rheini sy'n cymryd rhan. Mae dadansoddi'r data a gasglwyd drwy ddefnyddio lens rhywedd a chroestoriadol yn galluogi'r prosiect i ystyried yr amrywiaeth o nodweddion sydd gan bobl sy'n defnyddio'r cynllun, gan ei helpu i ddeall rhai o'r rhwystrau rhag cymryd rhan a sut gellir cyfeirio adnoddau i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn. Mae canfyddiadau'r dadansoddiad hwn yn llywio'r broses o ddylunio'r cam nesaf o weithgarwch.
- Rydym yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r gwahanol elfennau o weithgarwch i ymwreiddio cyllidebu ar sail rhyw er mwyn helpu i lywio'r cymorth rydym ni'n ei ddarparu drwy ein darpariaeth ddysgu i swyddogion ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn allweddol i helpu i newid o ganolbwyntio ar weithgarwch peilot i brif ffrydio'r dull hwn o weithredu, er mwyn cefnogi gwell proses o lunio polisïau a dyrannu adnoddau ar draws y sefydliad.
- Gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus yng Nghymru ochr yn ochr â Chyllideb y llynedd, a oedd yn gosod y cynlluniau gwariant dangosol ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Gan nad yw'r defnydd o wasanaethau cyhoeddus wedi newid yn sylweddol, mae'r dadansoddiad hwn yn berthnasol i Gyllideb 2023-24. Byddwn yn cyhoeddi diweddariadau pan fydd newidiadau sylweddol o ran y defnydd o wasanaethau cyhoeddus neu ddyrannu gwariant. Rydym wedi ystyried y dadansoddiad o ymyriadau polisi penodol gan ddefnyddio dadansoddiad dosbarthiadol, er enghraifft teithio llesol, ond rydym wedi dod i'r casgliad mai'r ffordd orau o ddehongli'r rhain yw drwy ddefnyddio data penodol o werthusiadau a gwaith monitro. Mae'r dadansoddiad rydym wedi'i gyhoeddi yn canolbwyntio ar y meysydd gwariant datganoledig mwyaf, gan roi dealltwriaeth lefel uchel ynghylch pa mor flaengar yw gwariant ar y meysydd hyn. Mae'r dadansoddiad hwn yn dal yn sail i'n hystyriaethau cyllidebol ar wariant cyhoeddus. Hefyd, mae dadansoddiad dosbarthiadol yn rhan bwysig o'n penderfyniadau treth, ac mae wedi cael ei ddefnyddio yn ein gwaith i helpu pobl gyda chostau byw.

## Cynllunio Seilwaith

- Gyda'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn cael ei chyhoeddi yn 2021, fe wnaethom amlinellu gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer y canlyniadau a ddylai fod yn bosibl yn sgil buddsoddiadau seilwaith. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar nifer o egwyddorion trawsbynciol, gan gynnwys cynllunio a darparu seilwaith mewn ffordd fwy cydgysylltiedig a chydweithredol. Fel un o'r camau hollbwysig sydd eu hangen i gyflawni dyheadau'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, rydym wedi cyhoeddi llif o brosiectau buddsoddi, sy'n amlinellu'r buddsoddiadau seilwaith y bwriedir eu gwneud dros y tair blynedd nesaf – buddsoddiadau gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â'n partneriaid yn yr awdurdodau lleol a sefydliadau cyhoeddus a phreifat eraill. Drwy rannu cynlluniau seilwaith nifer o sefydliadau a sectorau, ein nod yw cefnogi'r gwaith o ddod o hyd i gyfleoedd i gydweithio a chydgysylltu'r gwaith o gynllunio a chyflawni buddsoddiadau yng Nghymru.

## Trethi Cymru

- Rydym yn parhau i fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau a manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio ein hysgogiadau treth presennol er budd trethdalwyr Cymru a chyflawni amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru.
- Ym mis Tachwedd 2021, fe wnaethom gyhoeddi'r Cynllun Gwaith Polisi Trethi ar gyfer 2021-2026 i gyd-daro â chyhoeddi'r Fframwaith Polisi Trethi diweddaraf. Mae'r Cynllun Gwaith yn nodi blaenoriaethau ein polisi trethi er mwyn sicrhau bod trethi wedi'u datganoli'n gadarn a sefydlog, a chefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â threthi datganoledig a lleol. Mae ein Cynllun Gwaith Polisi Trethi yn rhoi cyfarwyddyd a sicrwydd clir mewn perthynas â'n blaenoriaethau o ran polisi trethi ar gyfer y pum mlynedd nesaf.
- Ym mis Rhagfyr 2021, fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar gyfer y Cynllun Gwaith Polisi Trethi pum mlynedd o hyd. Rydym yn dal i adrodd ar gynnydd yn flynyddol yn erbyn ein Cynllun Gwaith Polisi Trethi. Bydd yr Adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Rhagfyr 2022 Llywodraeth Cymru.
- Yn gynharach eleni, comisiynwyd yr adolygiadau annibynnol o'n dwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn, y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a disgwylir eu hadroddiadau ddechrau 2023.
- Mae gwaith wedi cael ei wneud i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr, gan gynnwys cyhoeddi dogfen ymgynghori ym mis Medi 2022, cynnal amrywiaeth o sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chomisiynu ymchwil i wahanol agweddau ar gynllunio ardoll ymwelwyr.
- Mewn ymateb i ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i "ddatblygu mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol pellach i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod", rydym yn bwrw ymlaen â gwaith gyda'n rhanddeiliaid ar fframwaith i awdurdodau lleol gyflwyno meysydd y byddent eisiau i set o gyfraddau Treth Trafodiadau Tir ar wahân fod yn berthnasol iddynt, sy'n berthnasol i ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.
- Ym mis Medi 2022, rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb pan fydd angen gwneud newidiadau'n gyflym i Ddeddfau Trethi Cymru o ganlyniad i ddigwyddiadau allanol. Bydd gwaith yn dechrau ar sefydlu'r saernïaeth tymor hirach i Lywodraeth a Senedd Cymru wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.
- Ym mis Hydref 2022, fe wnaethom gyflwyno newidiadau i brif gyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i newid y bandiau a'r cyfraddau cyfatebol ar gyfer y dreth stamp. Roedd Llywodraeth Cymru eisoes yn ystyried y newidiadau hyn.
- Eleni, rydym wedi parhau i feithrin perthynas waith adeiladol gyda Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi a Thrysorlys Ei Fawrhydi ar drethi a gedwir yn ôl. Yn sgil y cydweithio, mae materion y mae angen rhoi sylw iddynt yn dod i amlygrwydd yn gynt, gan gefnogi gwell proses o lunio polisïau.
- Rydym yn parhau i wella prosesau mewnol Llywodraeth Cymru fel bod trethiant, lle bo hynny'n briodol, yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw drethiant anfwriadol na rhwymedigaethau eraill.

## Ymgysylltu

- Rydym wedi datblygu ffordd strategol o ymgysylltu ynghylch y Gyllideb, drwy godi ymwybyddiaeth o drethiant a gwariant cyhoeddus; ymgysylltu'n ystyrlon â rhanddeiliaid allweddol ac unigolion y mae penderfyniadau ynghylch y gyllideb yn effeithio arnynt er mwyn trafod ac ystyried eu safbwyntiau; a chydweithio â rhanddeiliaid i ddylanwadu ar welliannau i gynigion gwariant a threthiant.
- Cynhaliwyd ein cynhadledd dreth flynyddol ar 23 Tachwedd. Mae'r gynhadledd dreth yn helpu i hyrwyddo agenda dreth Cymru. Roedd yr agenda'n cynnwys amrywiaeth o gyflwyniadau, gan gynnwys y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.
- Mae ein cyfrifiannell Cyfraddau Treth Incwm Cymru, sydd wedi'i chyhoeddi ar llyw.cymru, wedi cael ei diweddaru er mwyn dangos mewn ffordd ryngweithiol sut mae Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn cael eu gwario ar wasanaethau cyhoeddus allweddol yng Nghymru.
- Rydym yn dal i weithio'n agos gydag Awdurdod Cyllid Cymru, y corff sy'n gyfrifol am weinyddu a rheoli'r gwaith o gasglu'r ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn yng Nghymru.
- Rydym hefyd yn cynnal ein Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi i weinyddu a rheoli Cyfraddau Treth Incwm Cymru.
- Rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu mewn ffordd gydgysylltiedig a strategol, gan sicrhau bod y gweithgarwch yn cyd-fynd ag amcanion Gweinidogion. Mae ymgysylltu a chydweithio â'n rhanddeiliaid a'n partneriaid allweddol yn dal yn flaenoriaeth, yn enwedig o ystyried y sefyllfa heriol a chymhleth gyda'r Gyllideb ar hyn o bryd.
- Rydym wedi ymgysylltu â'n partneriaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, Comisiynwyr Statudol, mudiadau yn y trydydd sector a phartneriaid cymdeithasol, cyn paratoi'r Gyllideb Ddrafft. Roedd hyn yn gyfle i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol amlinellu'r sefyllfa economaidd a chyllidol heriol; ac i bartneriaid roi eu barn ar flaenoriaethau cyllid er mwyn sicrhau'r effaith a'r budd mwyaf, wrth i ni weithio gyda'n gilydd i ymateb i'r cyd-destun presennol a mynd i'r afael â heriau tymor hwy, gan gynnwys yr argyfwng hinsawdd a natur.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella dealltwriaeth o'r gyllideb ac i ymgysylltu â phobl ifanc ar drethi Cymru a'r Gyllideb. Rydym wedi llunio animeiddiad ar Gyllideb Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd yr animeiddiad hwn yn cael ei gyhoeddi fel rhan o gyfres o gynnwys ar y Gyllideb Ddrafft. Bydd hefyd yn rhan o'n gwaith ymgysylltu gydag aelodau Bwrdd Prosiect Cymru Ifanc, Plant yng Nghymru, fel rhan o'n gwaith ar ddealltwriaeth o'r gyllideb yng nghyswllt cydgynhyrchu Cynllun Gwella'r Gyllideb.
- Rydym yn dal i godi ymwybyddiaeth o Gyfraddau Treth Incwm Cymru, gan gynnwys hyrwyddo'r gyfrifiannell dreth, a ddatblygwyd i ddangos faint o arian y mae dinasyddion Cymru yn ei dalu ar eu Cyfraddau Treth Incwm yng Nghymru, a ble mae'r arian hwnnw'n cael ei wario. Mae 32% o'r cyhoedd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru.
- Gan adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud i gynnwys pobl ifanc ym materion cyllidebol Llywodraeth Cymru, ein cam nesaf fydd datblygu fersiwn pobl ifanc o Gynllun Gwella'r Gyllideb. Byddwn yn parhau i ddefnyddio digwyddiadau cyllidol allweddol, fel cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 13 Rhagfyr 2022, i godi ymwybyddiaeth o sut mae arian yn cael ei godi a'i wario yng Nghymru.

| | | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Etholiad Cyffredinol y DU? | | Etholiad y Senedd? |
| | | Cynllunio a chreu cyllideb 2023-24 | Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 |
| Penderfyniadau Gwario | Ymgorffori'r Ddeddf mewn penderfyniadau gwario | Yn y Flwyddyn Newydd, gwnaethom sefydlu'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb yn ffurfiol. Prif ddiben y Grŵp hwn yw ymgysylltu a dylanwadu ar welliannau i'n prosesau treth a'r Gyllideb, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb yn ei dro. Mae'r Grŵp hwn wedi darparu arbenigedd a thystiolaeth i roi cyngor uniongyrchol i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar flaenoriaethau'r Gyllideb strategol. Mae'r cyngor uniongyrchol hwn yn werthfawr drwy roi gwell sail i'r dewisiadau gwario ar ddyraniadau'r Gyllideb fel rhan o broses y Gyllideb. | Ionawr 2023 – adolygu aelodaeth y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, a gwneud unrhyw newidiadau i sicrhau bod y Grŵp yn cyd-fynd yn llawn â'r broses o gyflawni ei ganlyniadau. Ionawr 2023 – cytuno ar gynllun gwaith y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ar gyfer 2023. | Parhau â rôl y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ganlyniadau, yn parhau i ymgysylltu ac yn dylanwadu ar welliannau i brosesau treth a'r Gyllideb, yn ogystal â chefnogi Cynllun Gwella'r Gyllideb. | | |
| | | Rydym wedi parhau i ymgysylltu â Llywodraethau eraill a'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ynghylch prosesau'r Gyllideb. Mae'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb wedi bod yn gweithio gyda ni i archwilio sut rydym yn cynnal yr Asesiad Effaith Integredig Strategol, ac mae cynllun ar y cyd yn cael ei ddatblygu gyda newidiadau cynnar yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol a gyhoeddir ym mis Rhagfyr 2022. | Rydym yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i ddatblygu a chytuno ar y gwaith y gallwn ni ei wneud, fel rhan o raglen waith 2023, i ddatblygu diwygiadau ehangach i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, gan adeiladu ar waith o Gyllideb 2023-24. | Parhau i weithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb gyda'r nod o ymgorffori dull gweithredu lle caiff cynigion gwario eu datblygu drwy ystyried eu buddion hirdymor, wrth eu cydbwyso yn erbyn anghenion tymor byr, eu gallu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, ac y dylanwadwyd arnynt ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid y mae'r gweithgaredd yn effeithio arnynt. | | |
| | Yr Agenda Atal | Oherwydd gwaith helaeth y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ar yr Asesiad Effaith Integredig Strategol, nid oedd modd i ni fwrw ymlaen â'r gwaith atal roeddem wedi'i gynllunio. Bydd y gwaith atal yn cael ei flaenoriaethu yng nghynllun gwaith 2023 y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb. | Gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i lywio dyfodol yr agenda atal. Yn amodol ar ganfyddiadau o waith blaenorol, edrych ar y ffordd orau o gefnogi dull gweithredu cyllideb gyfan tuag at weithgareddau ataliol; ystyried gwerthusiad posibl i brofi ymarferoldeb ac effaith symud gwariant tuag at weithgareddau ataliol; a'r amodau sydd eu hangen i wneud hyn yn effeithiol ar draws y sefydliad cyfan. | | | |
| | | Rydym yn newid pwyslais y gronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn canolbwyntio ar fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. Cytunwyd ar y gyfran gyntaf o gyllid, sy'n ceisio cynorthwyo gofalwyr maeth. Rydym wrthi'n drafftio cyngor ar brosiectau pellach sy'n rhoi cymorth ar gyfer mabwysiadu a maethu. Bydd y gwaith hwn yn cael ei werthuso er mwyn asesu effeithiolrwydd y dulliau gweithredu yn y meysydd perthnasol. | | | | |
| | | Cyhoeddi fersiwn newydd o'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a ddatblygir drwy ddefnyddio sylfaen dystiolaeth gadarn er mwyn integreiddio ystyriaeth o fuddiannau hanfodol eraill – gan gynnwys datgarboneiddio, gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth – er mwyn i'r buddsoddiadau mawr hyn gael yr effaith gadarnhaol fwyaf bosibl ar lesiant Cymru. | Yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn 2021, mae llif o brosiectau wedi cael eu cyhoeddi sy'n dangos y camau hollbwysig y mae angen eu cymryd i gyflawni dyheadau'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae'r llif o brosiectau'n amlinellu'r buddsoddiadau seilwaith rydym ni'n bwriadu eu gwneud, a buddsoddiadau ein partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat dros y tair blynedd nesaf. Cyhoeddir fersiynau pellach o'r llif prosiectau yn y dyfodol wrth i ni barhau i weithio gyda'n partneriaid ar eu dull o gynllunio seilwaith ac adeiladu ar y gwaith yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb. | Pennu lefel y drydedd gyllideb garbon (2026-2030). | | Cyhoeddi Cymru Sero Net (2026-2030). |

Etholiad Cyffredinol y DU? (2024)

Etholiad y Senedd? (2026+)

| 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2023-24 | Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 |

## Penderfyniadau Gwario

### Yr Agenda Atal

Parhau i ddatblygu cryfder y sylfaen dystiolaeth bresennol i roi sicrwydd ynghylch gwerth am arian i gefnogi blaenoriaethu buddsoddiadau, gan adeiladu ar y model a ddatblygwyd. Adolygu dulliau cyllidebol yn erbyn tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar ddatgarboneiddio a bioamrywiaeth, gan adolygu cynlluniau gwariant cyfredol i leihau effeithiau carbon a chyflymu'r blaengynllunio ar gyfer y meysydd hynny y mae llywodraeth yn rhyngweithio â nhw.

Gwella'r dull gweithredu neu hyrwyddo'r dull gweithredu presennol i arfarnu penderfyniadau ariannol i osgoi'r risg y byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi seilwaith sy'n cynyddu allyriadau, heb ddeall yn glir sut byddai'r effaith yn cael ei lliniaru, a sut byddai'r mesurau lliniaru'n cael eu cyllido. Parhau i archwilio'r egwyddor o gysoni cyllidebau ariannol a charbon, ochr yn ochr â'r sylfaen dystiolaeth sy'n datblygu.

### Cynllunio ariannol tymor hirach

**2022:** O ganlyniad i'r adolygiad o wariant amlflwyddyn a gynhaliwyd yn 2021, cafodd cynlluniau gwariant adrannol dangosol ar gyfer 2022-23 eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021. Mae pwysau chwyddiant wedi arwain at ostyngiadau termau real yng ngwerth y Gyllideb ar gyfer 2022-23. Rydym wedi gweithio gydag adrannau i sicrhau bod yr holl gyllid sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf bosibl, gan ganolbwyntio ar ddiogelu gwasanaethau rheng flaen, cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, a mynd i'r afael â'r pwysau costau byw sy'n effeithio ar bobl ledled Cymru. Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i lywio a dylanwadu ar Gynllun Gwella'r Gyllideb.

**2023–2026+:** Cysoni cynlluniau ariannol a threth er mwyn mynd â chynlluniau ariannol tymor hirach rhagddynt. Gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb a rhanddeiliaid i lunio cynlluniau tymor hirach ar y cyd sy'n ymwneud â ffyrdd defnyddiol o ddefnyddio rhagolygon dangosol. Ystyried pa wersi y gellir eu dysgu gan randdeiliaid rhyngwladol ynghylch sut maen nhw'n ymdrin â gorwel hirach, yn enwedig o ran refeniw a sut maen nhw'n cynnal Adolygiadau o Wariant tymor hir. Bydd angen i'r rhain fod yn rhaglenni dros nifer o flynyddoedd a byddant yn seiliedig ar wersi o'r flwyddyn flaenorol.

**2022:** Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithio gyda Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant; mae'r aelodau'n cynnwys swyddogion o'r Alban, Gwlad yr Iâ, Seland Newydd a Chanada. Mae gan y Rhwydwaith hwn uchelgais ar y cyd i gyflawni ac i wella llesiant drwy eu dull gweithredu economaidd.

**2023–2026+:** Parhau i archwilio gwaith Llywodraethau eraill a'u hagwedd at gynllunio ariannol tymor hirach; nodi pa wersi y gallwn eu dysgu yng Nghymru fel rhan o'n cynlluniau i archwilio opsiynau ar gyfer Cyllidebau tymor hirach ar gyfer y cyfnod y mae gennym setliadau cyllido ar ei gyfer neu i adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth newydd.

Parhau i adolygu'r dystiolaeth bresennol, gan gynnwys adroddiad tueddiadau'r dyfodol, cyngor Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd a modelu Nuffield i gefnogi trafodaethau am y Gyllideb. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag adrannau wrth iddynt siapio eu gwaith asesu effaith.

### Cyllideb Atodol

Rydym wedi mabwysiadu strategaeth gyllidol newydd fel rhan o Gyllideb 2022-23 i fanteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael, gan gynnwys mabwysiadu strategaeth newydd ar gronfeydd wrth gefn a rhaglen gyfalaf. Fel rhan o broses y Gyllideb atodol, rydym yn monitro cynnydd y dull hwn o weithredu. Wrth symud ymlaen, byddwn yn adolygu'r strategaeth i bennu unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r dull hwn o weithredu.

Roedd Ail Gyllideb Atodol 2021-22 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 yn parhau i ddarparu naratif cynhwysfawr o ddyraniadau sylweddol y cyllidebau presennol a sut maent yn cael eu hailflaenoriaethu, ac effeithiau hynny, er mwyn gwella tryloywder.

Etholiad Cyffredinol y DU?

Etholiad y Senedd?

| 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2023-24 | Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 |

## Dadansoddiad Cyllidol ac Asesu Effaith

### Tryloywder Data Cyllidebol

**2022:** Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda rhanddeiliaid a'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i ddarparu hyfforddiant ar ddealltwriaeth o'r gyllideb. Mae gwaith wedi dechrau gyda Bwrdd Prosiect Cymru Ifanc, Plant yng Nghymru, i gydgynhyrchu fersiwn Pobl Ifanc o Gynllun Gwella'r Gyllideb, a fydd yn cael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023.

**2023:** Parhau i weithio gyda Bwrdd Prosiect Cymru Ifanc, Plant yng Nghymru, i gyhoeddi fersiwn wedi'i chydgynhyrchu o Gynllun Gwella'r Gyllideb ym mis Rhagfyr 2023.

**2024 – 2026+:** Parhau i fireinio a gwella tryloywder yr wybodaeth am y Gyllideb, gan weithio gyda rhanddeiliaid allanol, gyda'r nod o wella dealltwriaeth o'r gyllideb a'r ymgysylltiad â hi.

### Dadansoddiad Cyllidol

Cynnal model dadansoddi dosbarthiadol ac ystyried ffynonellau data newydd a/neu well. Mae canlyniadau'r model yn weddol sefydlog dros amser, felly bydd diweddariadau'n cael eu cyhoeddi pan fydd newidiadau sylweddol o ran y defnydd o wasanaethau cyhoeddus neu ddyrannu gwariant.

Defnyddio adnoddau dadansoddi dosbarthiadol treth i roi sail i benderfyniadau cyllidebu.

### Asesu Effaith Penderfyniadau ynghylch y Gyllideb

**2022:** Rydym wedi gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, ac wedi ystyried sut rydym yn cynnal yr Asesiad Effaith Integredig Strategol. Sefydlwyd is-grŵp, ac mae cynllun gwaith ar y cyd yn cael ei ddatblygu, gyda rhai newidiadau'n cael eu rhoi ar waith erbyn cyhoeddi'r Asesiad Effaith Integredig Strategol ym mis Rhagfyr 2022. Rydym wedi parhau i weithio gyda Llywodraethau eraill yn yr Alban, Seland Newydd, Canada a Gwlad yr Iâ ar eu hagweddau at ddiben a nodau'r Asesiad Effaith Integredig Strategol.

**2023 – 2024:** Rydym yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i fwrw ymlaen â chamau gweithredu yn 2023, ac rydym yn parhau i weithio gyda'n gilydd i ddatblygu dull cadarn a thryloyw o asesu penderfyniadau gwario:

- Adeiladu ar safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch ei ddiben
- Sut mae dangos yn fwy effeithiol ac yn gliriach bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r fframwaith ar gyfer pob dyletswydd arall;
- Datblygiadau i asesiad effaith ddosbarthiadol gwariant cyhoeddus yng Nghymru;
- Uchelgeisiau ar gyfer cyllidebu ar sail rhyw gan gynnwys defnyddio lens rhywedd i ddefnyddio dull croestoriadol;
- Ystyried cydbwysedd nodau tymor hir yn erbyn nodau tymor byr ac effeithiau penderfyniadau gwario.

**2025 – 2026+:** Gweithredu dadansoddiad gwell o effaith y Gyllideb sy'n ystyried pob datblygiad yn y blynyddoedd blaenorol, mewn ffordd sy'n dangos yn glir sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r holl ystyriaethau hyn. Bydd hyn yn cynnwys rhoi sylw i argymhellion adolygiad a gomisiynwyd (os yw'n berthnasol).

**2022 – 2023:** Monitro data o raglen y Cyfrifon Dysgu Personol yn barhaus, ac ystyried allbwn o ganfyddiadau interim y gwerthusiad ffurfiol sydd i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2022, er mwyn gwybod a oes angen dull gweithredu gwahanol i hyrwyddo'r nifer o bobl o grwpiau penodol sy'n manteisio ar y cynnig.

**2023:** Ystyried goblygiadau'r gwerthusiad terfynol o'r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol i bennu i ba raddau y mae 'canolbwyntio ar y rhywiau' wedi'i wreiddio'n llawn, gan nodi gwersi a ddysgwyd ac arferion da.

**2024 – 2026+:** Adolygu'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd hyd yma, ac ystyried gwerth comisiynu adolygiad o'r dull gweithredu, er mwyn cyfrannu at gynlluniau gweithredu yn y dyfodol ar gyfer Cyllidebu ar sail Rhyw.

**2022 – 2023:** Cynnal dau brosiect peilot arall ym meysydd Teithio Llesol a Gwarant i Bobl Ifanc. Cynhyrchu adroddiadau interim ar ganfyddiadau o gynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhyw i nodi'r prif ganfyddiadau ac unrhyw newidiadau mewn datblygu neu gyflawni polisi o ganlyniad i hynny.

**2024 – 2026+:** Ystyried goblygiadau a chanfyddiadau'r cynlluniau peilot i bennu i ba raddau y mae 'canolbwyntio ar y rhywiau' wedi'i wreiddio'n llawn, gan nodi gwersi a ddysgwyd ac arferion da.

Parhau i nodi meysydd polisi ar gyfer gweithgarwch a chyfleoedd pellach ar gyfer dysgu a rennir ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

| | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026+ |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Etholiad Cyffredinol y DU? | | Etholiad y Senedd? |
| | Cynllunio a chreu cyllideb 2023-24 | Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 |

## Dadansoddiad Cyllidol ac Asesu Effaith

### Asesu Effaith Penderfyniadau ynghylch y Gyllideb

**2022:** Rydym wedi parhau â'n gwaith i ymwreiddio cyllidebu ar sail rhyw ar draws Llywodraeth Cymru. Rydym wedi gweithio gydag amrywiaeth o gydweithwyr, yn fewnol ac yn allanol, i hybu gwell dealltwriaeth o gyllidebu ar sail rhyw ac i ddeall pa gymorth sydd ei angen ar bobl er mwyn newid y ffordd rydym yn datblygu polisi ac yn dyrannu ein hadnoddau – sy'n newid pwysig yn y diwylliant. Rydym yn gweithio nawr ar becyn cymorth ac yn parhau i ddefnyddio arbenigedd cydweithwyr y tu allan i Lywodraeth Cymru – yma yng Nghymru ac yn rhyngwladol – i gefnogi'r daith barhaus yma.

**2023 – 2026+:** Byddwn yn parhau i ddatblygu ac ymgysylltu ag eraill ar gyllidebu ar sail rhyw. Byddwn yn gwneud hyn drwy ymgysylltu'n rheolaidd â Llywodraethau eraill, gan gynnwys yr Alban, Seland Newydd, Gwlad yr Iâ a Chanada, a dysgu ganddynt. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â Womens Budget Group Cymru a rhanddeiliaid eraill drwy'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb er mwyn datblygu ein dull cyllidebu ar sail rhyw. Bydd yn rhaid datblygu ein dull mewn cydweithrediad ag arweinwyr cyllid yn adrannau Llywodraeth Cymru, er mwyn cydnabod eu rôl yn y gwaith o bennu cyllidebau ym mhortffolios Gweinidogol unigol, sy'n digwydd yn annibynnol ar Gyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru ond yn cyfrannu at hynny.

**2022 – 2026+:** Parhau i gydweithio â rhanddeiliaid mewnol allweddol fel Penaethiaid Cyllid, a'r proffesiwn Polisi, a thimau Cydraddoldeb, i gefnogi datblygiadau i asesiadau o'r effaith ar lefel portffolio a datblygu dealltwriaeth ehangach a defnyddio dulliau gweithredu cyllidebu ar sail rhyw, a defnyddio hynny, wrth ddatblygu polisïau a gyda gweithgareddau 'cyllidebu' ar draws Adrannau.

### Dadansoddiadau Economaidd

**2022 – 2026+:** Darparu cyngor penodol i Gymru i sicrhau bod egwyddorion y Llyfr Gwyrdd yn cael eu defnyddio mewn meysydd polisi perthnasol mewn modd sy'n gyson â gwerthoedd Llywodraeth Cymru.

**2022:** Cynhyrchu dadansoddiad economaidd rheolaidd a gwybodaeth briffio am yr argyfwng economaidd sy'n esblygu sy'n gysylltiedig â chostau byw, y pandemig a'r newid i gysylltiadau masnachu newydd â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyniadau i'r Cabinet ac uwch swyddogion, paratoi dadansoddiadau ac asesiadau pwrpasol a nodir mewn Adroddiad Economaidd Misol mewnol.

**2023 – 2026+:** Datblygu ymhellach Adroddiad blynyddol y Prif Economegydd i ategu adroddiad Llesiant Cymru drwy ganolbwyntio'n fanylach ar gyd-destun economaidd a chyllidol Cymru.

## Cynllunio Seilwaith

**2022 – 2023:** Archwilio sut byddai modd manteisio i'r eithaf ar beirianwaith a phrosesau mewnol Llywodraeth Cymru i gael y gorau o'n buddsoddiadau yn erbyn y canlyniadau seiliedig ar barthau yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, ac i helpu i gyflawni'r camau gweithredu croestoriadol yn ehangach.

**2022:** Datblygu dull gwerthuso a monitro i asesu i ba raddau y mae'r buddsoddiadau a nodir yn y Cynllun Cyllid Seilwaith yn cyflawni yn erbyn y canlyniadau yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Ac edrych ar sut byddai modd manteisio i'r eithaf ar fecanwaith a phrosesau mewnol Llywodraeth Cymru i gyflawni cymaint â phosibl yn erbyn canlyniadau.

**2023:** Parhau i ddatblygu dull gwerthuso a monitro. Ystyried a fyddai modd treialu'r dull arfaethedig mewn rhai ardaloedd wedi'u targedu.

**2024:** Defnyddio'r dull gwerthuso a monitro i bennu i ba raddau y mae ein buddsoddiadau mewn seilwaith wedi cyflawni yn erbyn y canlyniadau strategol cysylltiedig yn y Cynllun Cyllid Seilwaith.

**2025:** Wrth i ddiwedd y setliad cyfalaf tair blynedd agosáu (gorffen yn 2024-25), ac yn ddibynnol ar ddarpariaeth setliad cyfalaf amlflwyddyn dilynol gan Drysorlys EM, mynd ati i ddatblygu ail Gynllun Cyllid Seilwaith, gan ddefnyddio'r canlyniadau strategol cyson a nodir yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, ac adlewyrchu canlyniadau'r dull gwerthuso a monitro.

Etholiad Cyffredinol y DU?

Etholiad y Senedd?

| 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2023-24 | Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 |

Trethi Cymru

Asesu effaith Penderfyniadau ynghylch y Gyllideb

Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddwyd Cynllun Gwaith Polisi Trethi a fydd ar waith am bum mlynedd (2021-26). Cynllun i gyhoeddi Adroddiad Polisi Trethi Blynyddol i gyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.

Yn 2022, comisiynwyd yr adolygiadau annibynnol o'n dwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn, y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Disgwylir adroddiad ar y naill adolygiad a'r llall ddechrau 2023.

Ym mis Hydref 2022, fe wnaethom gyflwyno newidiadau i brif gyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i newid y bandiau a'r cyfraddau cyfatebol ar gyfer y dreth stamp.

Rydym hefyd yn ystyried sut gallwn ni ddefnyddio prosesau a chynhyrchion sicrwydd Llywodraeth Cymru yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl, sbarduno arferion gorau a gwella datblygiad cydgysylltiedig ar draws Llywodraeth Cymru.

Daeth Treth Pecynnau Plastig Llywodraeth y DU i rym ar 1 Ebrill 2022. Mae'r dreth newydd hon yn berthnasol i becynnau plastig a gynhyrchir yn y DU, neu a fewnforir i'r DU, lle nad yw o leiaf 30% o'r plastig wedi cael ei ailgylchu. Mae canllawiau manwl wedi cael eu llunio i egluro'n fanylach i ba becynnau plastig y mae'r dreth yn berthnasol, pwy sy'n gyfrifol am dalu a chyfrifyddu, ffurflenni treth (adrodd) a chadw cofnodion.

Ystyried sut mae defnyddio ysgogiadau polisi, deddfwriaethol a threth ehangach gyda phartneriaid polisi i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chyflawni ein hamcanion amgylcheddol ehangach. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chydweithwyr ym maes polisi Gwastraff a Llywodraeth y DU ar Gynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ac Allyriadau Masnachu Carbon.

Cafodd y Fframwaith Polisi Trethi ei ailgyhoeddi ym mis Tachwedd 2021. Mae'r Fframwaith Polisi yn nodi'r egwyddorion a'r amcanion a fydd yn sail i'r broses o ddatblygu polisi a strategaeth Gweinidogion Cymru yn y dyfodol.

Parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r broses o ddatblygu polisi trethi. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cymorth dadansoddol yn Llywodraeth Cymru a chyda Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi drwy ein Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

Gwaith parhaus i wella gallu treth Cymru yn y meysydd polisi, dadansoddi, cyfathrebu ac ymgysylltu, ymchwil a thystiolaeth a gweinyddu.


Mae gwaith wedi cael ei wneud i gyflawni Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr, gan gynnwys cyhoeddi dogfen ymgynghori, cynnal amrywiaeth o sesiynau ymgysylltu, a chomisiynu ymchwil i wahanol agweddau ar gynllunio ardoll ymwelwyr.

Bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r trefniadau deddfwriaethol a'r prosesau cysylltiedig er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr. (Mae'r union amseriad yn dibynnu ar y rhaglen ddeddfwriaethol.)

Etholiad Cyffredinol y DU?

Etholiad y Senedd?

| | | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynllunio a chreu cyllideb 2023-24 | Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 |
| Trethi Cymru | Asesu effaith Penderfyniadau ynghylch y Gyllideb | Ym mis Medi 2022, rhoddwyd cydsyniad brenhinol i Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022. Parhau i ddatblygu cynnig deddfwriaethol i ddarparu cyfrwng ychwanegol i Weinidogion Cymru ymateb pan fydd angen newid Deddfau Trethi Cymru yn gyflym. | Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf, gan gynnwys ystyried mecanweithiau deddfwriaethol eraill ar gyfer newid Deddfau Trethi Cymru. | | | |
| Trethi Cymru | Asesu effaith Penderfyniadau ynghylch y Gyllideb | Byddwn yn parhau i feithrin perthynas waith adeiladol gyda Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi a Thrysorlys Ei Fawrhydi ar drethi a gedwir yn ôl. Rydym hefyd yn datblygu ein prosesau mewnol er mwyn sicrhau bod trethiant, lle bo hynny'n briodol, yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw drethiant anfwriadol na rhwymedigaethau eraill. | | | | |
| Ymgysylltu | | Datblygu negeseuon a chyfathrebu mwy penodol i ddangos effaith gwariant ar draws adrannau'r Llywodraeth a meysydd Cyllideb. | Symud o ymwybyddiaeth o ymgysylltiad, defnyddio'r arferion da a nodwyd, er mwyn helpu i asesu effaith penderfyniadau ynghylch y Gyllideb a dylanwadu ar flaenoriaethau gwario. | | | |
| Ymgysylltu | | Datblygu dulliau newydd o roi gwybod i randdeiliaid am broses y Gyllideb, a sut gallant gyfrannu gwybodaeth a chael dylanwad. | Parhau i ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid i sicrhau y gofynnir yn amserol am eu barn am flaenoriaethau cyllid er mwyn dylanwadu ar flaenoriaethau'r Gyllideb. | | | |
| Ymgysylltu | | Ceisio barn grwpiau targed gyda'r bwriad o ddatblygu cynnwys dealltwriaeth o'r Gyllideb i gefnogi'r gwaith ymgysylltu. | Datblygu llyfrgell gynnwys i ymgorffori mewnbwn gan grwpiau targed mewn deunydd newydd. Parhau â'r gwaith ymgysylltu gydag aelodau Bwrdd Ieuenctid Plant yng Nghymru fel rhan o'n gweithgarwch ar ddealltwriaeth o'r Gyllideb yng nghyswllt cydgynhyrchu Cynllun Gwella'r Gyllideb. | Parhau i archwilio cyfleoedd i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a gwella dogfennau a gyhoeddir am y Gyllideb i rannu'r negeseuon allweddol mewn ffordd syml, er mwyn codi ymwybyddiaeth dinasyddion o Gyllideb Llywodraeth Cymru (treth a gwariant). | | |
| Ymgysylltu | | Casglu gwybodaeth am brofiadau ac ymwybyddiaeth dinasyddion yn barhaus er mwyn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu naratif ar gyfer cyd-destun COVID-19, cyd-destun adfer a chyfranogiad yn y dyfodol. Monitro a gwerthuso gweithgarwch cyfathrebu'n barhaus er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni ac asesu targedau a chyrhaeddiad yn gyson. | | | | |
| Ymgysylltu | | Gweithio gyda sefydliadau partner a defnyddio arbenigedd y Grŵp Cynghori newydd ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb. | Pwyso a mesur yr hyn a ddysgwyd a chyngor er mwyn datblygu a chyfrannu at strategaeth ymgysylltu 3 blynedd i gryfhau ac adeiladu ar ymdrechion ymgysylltu gyda'r nod o gynyddu'r effaith ar lefel rhanddeiliaid ac ymysg dinasyddion ehangach yng Nghymru ar flaenoriaethau'r Gyllideb. | | | |




# Adolygu

**Deddf WFG** – Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru)

**SIIA** – Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r gyllideb

**IIA** – Asesiad Effaith Integredig

**UKCCC** – Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd

**WCPP** – Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

**MEGs** – Prif Grwpiau Gwariant

**BELs** – Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

**WIIS** – Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

**LTT** – Y Dreth Trafodiadau Tir

**FGC** – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

**PLA** – Cyfrifon Dysgu Personol